**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg o fewn Adran Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**6 Mawrth 2025**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025 (“Rheoliadau 2025”) yn cywiro gwall drafftio a nodwyd yn Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”).

1.2 Gwnaed Rheoliadau 2024 i ddiweddaru Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (“Rheoliadau 2006”).

1.3 Roedd rheoliad 2(5) o Reoliadau 2024 yn amnewid ac yn mewnosod Atodlen 1 newydd yn Rheoliadau 2006. Roedd yr Atodlen newydd hon yn manylu ar y taliadau diwygiedig i'w hadennill am wyliadwriaeth gweddillion gwahanol fathau o greaduriaid neu gynnyrch anifeiliaid (“creature or animal product”). Yng ngholofn 2 yr Atodlen newydd, y tâl rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 am anifail carngaled (“Soliped”) yw £0.04287 fesul carcas, gan godi i £0.4660 fesul carcas o 1 Ebrill 2025.

1.4 Mae Rheoliadau 2025 yn mewnosod y ffigur cywir yn Atodlen 1 o Reoliadau 2006 ac yn darparu i'r tâl diwygiedig i'w adennill am wyliadwriaeth gweddillion anifeiliaid carngaled, rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025, i £0.4287 fesul carcas.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024 SL(6)529.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae angen diwygiad i'r Atodlen o daliadau a ragnodir gan Reoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006. Yn benodol, mae angen diwygio'r cofnod ar gyfer ‘Soliped’ er mwyn addasu'r tâl yng ngholofn 1 o ‘0.04287’ i ‘0.4287’.

3.2 Er mwyn rhoi effaith i'r newid hwn, cynigir bod Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau o dan adran 45(1), (2) a 48(1)(b) a (c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (‘Deddf 1990’). Mae adran 45(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gosod neu eu hawdurdodi gan awdurdodau gorfodi mewn perthynas â phethau a wnaed neu sydd i'w gwneud gan y rhai y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud neu yr awdurdodir iddynt eu gwneud o dan Ddeddf 1990. Mae paragraff (2) yn galluogi'r rheoliadau i gynnwys darpariaeth o'r fath y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn addas o ran taliadau y mae'r rheoliadau yn darparu ar eu cyfer ac adennill taliadau o'r fath.

3.3 Mae adran 48(b) ac (c) yn galluogi rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1990 i wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag achosion neu ddosbarthiadau gwahanol ac i ddarparu darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol neu ddarpariaeth drosiannol fel y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus.

3.4 Yn rhinwedd adran 48(3), bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Roedd Rheoliadau 2024 yn diweddaru'r taliadau sy'n daladwy i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) mewn perthynas â gwyliadwriaeth ar gyfer gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau penodol eraill mewn anifeiliaid cynnyrch bwyd, a chynhyrchion anifeiliaid fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP). Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r tâl diwygiedig sydd i'w adennill am wyliadwriaeth gweddillion anifeiliaid carngaled, rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025, i £0.4287 fesul carcas.

4.2 Nid oes unrhyw ladd-dai yng Nghymru sydd wedi'u trwyddedu i ladd anifeiliaid carngaled, felly nid yw'r gwall hwn yn cael effaith niweidiol ar gyflawni'r NRCP. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i gywiro'r llyfr statud, gan sicrhau bod Rheoliadau 2024 yn cael eu gweithredu'n unffurf ledled y DU a fydd yn darparu eglurder i'r VMD a gweithredwyr.

**5. Ymgynghori**

5.1 Cyn arfer y pwerau a nodir uchod, mae adran 48(4) ac erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad. Roedd yr atodlen daliadau a fewnosodwyd yn Rheoliadau 2006 yn destun ymgynghoriad (https://www.gov.uk/government/consultations/national-residues-control-programme-revision-of-charges).

5.2 Ar y sail bod swyddogion eisoes wedi ymgynghori ar y ffigur cywir, mae'r gofyniad ymgynghori wedi'i fodloni ac nid oes angen ymgynghoriad penodol pellach ar y diwygiad hwn.

5.3 Yn ogystal, pan fo Rheoliadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Ddeddf 1990, mae adran 48(4A) o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol: "*Before making any regulations or order under this Act, the Secretary of State shall have regard to any relevant advice given by the Food Standards Agency".*

5.4 Yng Nghymru, trosglwyddwyd swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'u darllenwyd gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn

arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

5.5 Ymgynghorwyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) Cymru ac maent yn fodlon â'r offeryn hwn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Nid oes RIA wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## 7. Effaith ar fusnesau, elusennau a chyrff gwirfoddol

7.1 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar unrhyw fusnes, elusen na chorff gwirfoddol gan nad oes unrhyw ladd-dai wedi'u trwyddedu i ladd anifeiliaid carngaled yng Nghymru.